# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**2015 dccc 2**

## RHAN 3

COMISIYNYDD CENEDLAETHAU'R DYFODOL CYMRU

*Swyddogaethau'r Comisiynydd*

### 24 Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol: gweithgareddau yn ystod y cyfnod adrodd

(1) Yn ystod cyfnod adrodd (ond cyn i'r adroddiad o dan adran 23 gael ei gyhoeddi) rhaid i'r Comisiynydd ymgynghori â'r canlynol—

- (a) y panel cynghori (gweler adran 26);
- (b) pob corff cyhoeddus;
- (c) cynrychiolwyr mudiadau gwirfoddol yng Nghymru;
- (d) unrhyw berson arall y mae'r Comisiynydd yn ystyried ei fod yn cymryd camau (neu'n dymuno cymryd camau) a allai gyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant;
- (e) cynrychiolwyr personau sy'n preswylio ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru;
- (f) cynrychiolwyr personau sy'n cynnal busnes yng Nghymru;
- (g) undebau llafur sy'n cynrychioli gweithwyr yng Nghymru;
- (h) unrhyw berson arall y mae'r Comisiynydd yn ei ystyried yn briodol er mwyn sicrhau bod buddiannau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn cael eu cynrychioli'n llawn.

(2) Wrth baratoi adroddiad o dan adran 23 rhaid i'r Comisiynydd (yn ogystal ag ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd gan bersonau yr ymgynghorwyd â hwy o dan is-adran (1)) ystyried y canlynol—

- (a) pob adroddiad llesiant blynyddol o dan adran 10(10) a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod adrodd;

(b) yr adroddiad tueddiadau tebygol y dyfodol a gyhoeddir o dan adran 11 ar y diwrnod cyn i'r cyfnod adrodd ddechrau;

(c) adroddiadau perthnasol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 24 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 56(2)**

**I2** A. 24 mewn grym ar 1.2.2016 gan O.S. 2016/86, **ergl. 2**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/02/2016.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Adran 24.